Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

National Assembly for Wales
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

17 Ionawr 2020

Annwyl Dafydd

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 8 Ionawr i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

Diolch i chi am gytuno i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor ar y gyllideb a gwaith eich adran.

Cyfuno

Soniasoch fod y cynllun Cyfuno wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac y byddwch yn cynyddu'r dyraniad cyllid ar ei gyfer. Buaswn yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi canlyniad yr adolygiad, ac union swm y cyllid ar gyfer cynllun Cyfuno unwaith y penderfynir ar hyn.

Dywedasoch hefyd y bydd eich adran yn rhoi blaenoriaeth i gynyddu cyfranogiad a phresenoldeb mewn safleoedd diwylliannol a safleoedd treftadaeth yn eich portffolio. Unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gynnwys ffigurau ar gyfraddau presenoldeb a chyfranogi presennol a'ch ffigurau targed yn hyn o beth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Hoffai'r Pwyllgor fynd ar drywydd y nod hwn fel rhan o'n gwaith craffu ar y gyllideb o ran y gyllideb y flwyddyn nesaf.

Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Chwaraeon

Deallaf eich bod yn disgwyl derbyn achosion busnes ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol a'r Amgueddfa Chwaraeon yr haf hwn. Dywedasoch hefyd y byddwch yn ceisio cyllid ychwanegol yn y gyllideb atodol i fwrw ymlaen â'r prosiectau hyn.

A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r achosion busnes, eich cais am gyllid a phryd rydych yn gobeithio cyhoeddi eich penderfyniad ar y camau nesaf ym mhob achos.

Penodi Cyfarwyddwr Masnachol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran penodi Cyfarwyddwr Masnachol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi'r rhesymau pam na wnaed y penodiad yn gynt. Nododd yr Aelodau yn ystod y drafodaeth ar y pwnc hwn y gallai cyfuno'r swydd hon â chyfrifoldebau ar draws nifer fwy o sefydliadau olygu y gellir cynnig cyflog uwch ac y gallai ddenu cronfa fwy o ymgeiswyr.

Cyllid ar gyfer prosiectau ffilm a theledu mawr

A oes modd i chi amlinellu gwerth a natur y prosiectau sydd wedi cael cefnogaeth cyllid y Llywodraeth ers y saib o ran y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau? A oes modd i chi amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ymgeiswyr am y cyllid hwn yn ystod y saib o ran y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau? Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrth y Pwyllgor yn anffurfiol bod diffyg gwybodaeth a diffyg cyhoeddusrwydd ynghylch cefnogaeth posibl gan y Llywodraeth ar gyfer prosiectau.

A allwch nodi'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl y ffordd y gweinyddwyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a gaiff ei throsglwyddo i'r dull cyllido a gynigir ar gyfer ffilm a theledu o dan Cymru Greadigol?

Lleoliadau cerddoriaeth fyw

Soniasoch y byddwch yn blaenoriaethu dulliau i gefnogi lleoliadau cerddoriaeth fyw a hyrwyddwyr, i leihau'r risg ariannol a all ddeillio o gynnal digwyddiadau. A allwch ddarparu rhagor o fanylion am y cynigion hyn?

Cronfa newyddiaduraeth hyperleol

A allwch ddarparu canlyniadau'r astudiaeth hon i'r Pwyllgor, a nodi a yw'r arian hwnnw wedi cyflawni'r amcanion a ddymunwyd? A allwch roi gwybod i ni a fydd y gronfa'n parhau?

Er mwyn symud ymlaen â gwaith y Pwyllgor, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn 30 Ionawr 2020.

Diolch eto am ddarparu rhagor o fanylion am y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020/21.

Yn gywir,

Bethan Sayed

Cadeirydd y Pwyllgor

Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/00057/20

Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a
Chyfathrebu Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

05 Chwefror 2020

Annwyl Bethan Sayed AC,

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ionawr yn gofyn am ragor o fanylion am y gyllideb a gwaith y Gyfarwyddiaeth Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor ar 8 Ionawr i drafod y mater uchod.

Rwyf am ateb y cwestiynau hyn yn y drefn y cawsant eu codi:

Cyfuno

Mae swyddogion yn gweithio ar gynllun busnes manwl a chaiff datganiad Gweinidogol ei gyhoeddi'n fuan yn rhoi manylion y cyllid a disgwyliadau'r rhaglen, gan gynnwys targedau cyfranogi, dros y flwyddyn a ddaw.

Yn ystod 2018-19, yn seiliedig ar yr adborth gan gydlynwyr, cymerodd dros ddeg mil o bobl ran mewn gweithgarwch o fewn amrywiol feysydd – datblygu sgiliau digidol, gwirfoddoli, profiad gwaith, gwella llesiant corfforol, ennill cymhwyster, neu gael eu cefnogi yn yr ysgol.

Mae yn wir yn flaenoriaeth i gael mwy o bobl i gyfranogi ac i ymweld â safleoedd diwylliannol a threftadaeth. Roedd cyfanswm yr ymwelwyr oedd yn talu a'r rhai nad oedd yn talu ar safleoedd Cadw y llynedd yn 1.321 miliwn o bobl. Y targed eleni yw £1.4 miliwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru ar gyfer 2018/19 (yn seiliedig ar bortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru o 67 o sefydliadau) yn nodi bod Sefydliadau yr Arolwg Portffolio yn cynnal cyfanswm o 23,149 o ddigwyddiadau celfyddydol yn ystod y flwyddyn, gan olygu bod 4.2 miliwn yn bresennol; roeddent hefyd yn cynnal 72,383 o sesiynau celfyddydol i gyfranogwyr, gyda 1.1 miliwn yn cymryd rhan.

Croesawodd Amgueddfa Cymru oddeutu 1.9 miliwn o ymwelwyr i'w saith o amgueddfeydd yn ystod y flwyddyn. Hefyd, cafodd y rhwydwaith o amgueddfeydd lleol ledled Cymru oddeutu 2 filiwn o ymwelwyr. Roedd amgueddfeydd yn parhau i gynnig profiadau dysgu o safon uchel ac yn darparu dros 9,500 o sesiynau dysgu ffurfiol.

Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru ac Amgueddfa Chwaraeon

Yn dilyn y cytundeb cyllidebol, cynhaliwyd astudiaethau dichonoldeb ar amgueddfa bêl-droed newydd ac amgueddfa celf gyfoes yn 2018. Ers hynny, mae'r gwaith wedi parhau ar ddod o hyd i'r ffordd mwyaf priodol o ddatblygu'r ddau faes.

Cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ar 10 Mai 2019. Roedd yn cynnig buddsoddi yn Amgueddfa Wrecsam fel cartref i hanes pêl-droed yng Nghymru a buddsoddi mewn model gwasgaredig ar gyfer sicrhau mynediad at y casgliad cenedlaethol o gelf gyfoes ledled Cymru.

Bydd trafodaethau positif gyda swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a chefnogaeth eu Haelodau, yn golygu y bydd Amgueddfa Wrecsam yn derbyn cyllid i ddatblygu arddangosfa a dyluniadau pensaernïol, a pharatoi cynllun busnes fydd yn rhaid ei gyflwyno imi yn yr haf. Rwyf wedi neilltuo £445 mil i ddatblygu prosiect Amgueddfa Wrecsam dros y dair mlynedd nesaf.

O ran celf gyfoes, mae grŵp llywio bychan yn arwain ar ddatblygu cynllun busnes i roi amlinelliad o'r buddsoddiad ar gyfer darparu celf gyfoes wasgaredig ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y bydd pawb yng Ngymru yn gallu gweld ein casgliadau celf gyfoes a bydd yn cynnwys buddsoddi yn ein rhwydwaith rhagorol presennol o orielau celf ac amgueddfeydd. Caiff y cynllun busnes ei gyflwyno imi yn yr haf.

Fel rhan o'r gwaith paratoadol, mae Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) wedi edrych ar y lleoliadau ledled Cymru i nodi yr anghenion a'r posibiliadau. Mae CCC yn gwneud rhagor o waith ar hyn o bryd gyda lleoliadau posibl i edrych ar eu gofynion, y costau ac i sicrhau bod ystod eang o leoliadau.

Hefyd, byddwn yn cefnogi Amgueddfa Cymru i wella'r broses o storio a digideiddio y Casgliad Celf Gyfoes Cenedlaethol, gan sicrhau ei bod yn haws i'r cyhoedd ac i orielau ledled Cymru eu gweld. Bydd hyn yn sicrhau dull arloesol, cynhwysol a hygyrch o ymdrin â chelf gyfoes yng Nghymru.

Rwyf wedi neilltuo £1.53miliwn ar hyn o bryd i ariannu'r gwaith hwn dros y tair mlynedd nesaf.

Unwaith y bydd y cynlluniau busnes ar gyfer y ddau brosiect wedi'u cyflwyno, byddaf yn gwneud rhagor o benderfyniadau ar gyllido a'r camau nesaf.

Penodi Cyfarwyddwr Masnachol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Roedd penodi Cyfarwyddwr Masnachol i Amgueddfa Cymru yn un o argymhellion Adolygiad Thurley.

Rwy'n cydnabod y gallai'r swydd hon fod o fudd i'r sector cyfan, ond ar hyn o bryd nid yw Amgueddfa Cymru wedi gallu penodi Cyfarwyddwr Masnachol wedi dau ymgais.

Ar ddiwedd yr ymgyrch recriwtio cyntaf, aeth fy nghydweithwyr yn Amgueddfa Cymru at Lywodraeth Cymru i gyflwyno achos ar gyfer codiad cyflog yn dilyn adborth gan yr ymgeisydd a ffefrir. Cytunodd Llywodraeth Cymru i fwy o hyblygrwydd a chafodd y cyflog cychwynnol ei godi o £90 mil i £95 mil, gan godi i £100 mil wedi deuddeg mis. Mae'n bwysig nodi bod y cyflog hwn yn uwch na chyflogau pob cyfarwyddwr arall yn Amgueddfa Cymru.

Dechreuodd ail ymgyrch recriwtio ym mis Tachwedd, gan arwain at rai ymgeiswyr addawol. Fodd bynnag, erbyn y cyfweliadau ym mis Ionawr, roedd nifer o ymgeiswyr wedi gadael y broses. Cynhaliwyd y cyfweliadau, ond nid oedd modd penodi unrhyw un o'r ymgeiswyr oedd yn weddill.

Mae Cyfarwyddwyr Amgueddfa Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'm swyddogion drwy gydol y broses. Rwy'n deall bod yr Amgueddfa wedi comisiynu cynghorydd allanol ar unwaith i edrych ar sut y gellid ail-lunio'r swydd hon, ac eto ddod â manteision hirdymor i swyddogaethau masnachol a chodi arian yr Amgueddfa, a byddant yn rhoi y newyddion diweddaraf imi yn fuan ynghylch hyn.

Ariannu prosiectau ffilm a phrosiectau mawr ar y teledu

Ers mis Awst 2018, cafodd 11 o brosiectau ar y sgrîn eu cefnogi drwy gyllid grant hyd at £3.9 mil, gyda'r gwariant a ragwelir yng Nghymru oddeutu £45 mil.

Nid oedd unrhyw gyfathrebu ffurfiol ar yr oedi gyda'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Fodd bynnag mae gan y timau datblygu busnes berthynas weithio dda gyda busnesau yn y diwydiant ac rydym wedi parhau, drwy'r cysylltiadau hyn, i hyrwyddo ein cyllid grant ar gyfer y cynyrchiadau hyn.

Fel a welwyd yn ein hymateb i adroddiad PAC, cafodd nifer o wersi eu dysgu o'r berthynas ehangach gyda Pinewood, gan gynnwys dysgu o'r gwahaniaethau rhwng y modelau gweithredu sydd eu hangen ar gyfer stiwio ffilm yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU, sut y gallwn gynnwys manteision ehangach i'r economi leol yn ogystal ag elw masnachol, a pha mor gyflym y mae angen inni ymateb i fargeinion masnachol.

Cafodd y gwersi hyn eu rhannu ar draws y timau Cyllid a Llywodraethu yn Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol. Maent wedi'u rhannu â thimau eraill ledled Llywodraeth Cymru felly, cyn belled ag y bo modd eu defnyddio'n ehangach o gymharu â gwersi penodol ar gyfer rheoli ymyraethau gan y cyfryngau, gellir eu hystyried ar gyfer unrhyw gynlluniau newydd a chynlluniau cyfredol.

Mae tîm Cymru Cymru Greadigol wedi ystyried y gwersi hyn wrth gynllunio rhaglenni cyllido newydd ar gyfer y sector fydd yn cael eu cyhoeddi fel rhan o lansiad Cymru Greadigol ar 29 Ionawr.

Lleoliadau Cerddoriaeth Fyw

Caiff manylion ein cynnig i gefnogi lleoliadau cerddoriaeth fyw ar lawr gwlad eu cyhoeddi fel rhan o lansiad Cymru Greadigol ar 29 Ionawr. Nid yw y cynnig hwn yn cynnwys cymorth ar gyfer hyrwyddwyr ar hyn o bryd sy'n gysylltiedig â'r risg ariannol o lwyfannu digwyddiadau.

Bydd cynigion ehangach i gefnogi'r diwydiant cerddoriaeth yn cael eu datblygu mewn ymateb i adborth trwy drafodaethau â'r diwydiant a thystiolaeth o'r gofynion. Pe byddai'r

dystiolaeth hon yn dangos bod angen ymyraeth gan lywodraeth i gefnogi hyrwyddwyr, byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach.

Cronfa newyddiaduraeth hyperleol

Bydd astudiaeth fechan annibynnol yn cael ei chomisiynu yn fuan iawn i werthuso effaith y Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol. Rydym yn disgwyl i'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd fod ar gael ym mis Mai. Yn dilyn y gwerthusiad, byddwn yn ystyried yr angen am gronfa yn y dyfodol, ac os y caiff ei hargymell byddai yn amodol ar sicrhau bod yr arian ar gael.

Gobeithio y bydd hyn o fudd ichi.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth